

LLAIS

Eich llais chi mewn
iechyd a gofal

Your voice in health
and social care



DATGANIAD SAFBWYNT LLAIS GWEITHREDU AR FYRDER AR GWASANAETHAU GOFAL BRYD YNG

CHWEFROR 2025



Datganiad safbwynt Llais: Gweithredu ar fyrder ar gwasanaethau gofal brys yng Nghymru

Mae Llais yn bodoli i sicrhau bod lleisiau a phrofiadau pobl a chymunedau ledled Cymru yn cael eu clywed ac yn cael eu gweithredu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Fel y nodir yn Neddff Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, mae gennym ddyletswydd statudol i adlewyrchu barn a chynrychioli buddiannau pobl yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Drwy ymgysylltu â dros 700 o bobl, gan gynnwys drwy 42 o ymweliadau ag ysbytai, unedau mân anafiadau ac asesu meddygol, mae pobl a chymunedau wedi dweud wrthym fod gofal brys yng Nghymru yn methu â chyrraedd y safonau y maent yn eu disgwyl ac yn eu haeddu.

Yn ystod yr wythnosau diwethaf wrth i effaith y gaeaf gydio, bu diddordeb cyhoeddus eang yn yr heriau sy'n wynebu adrannau brys GIG Cymru, gyda chyrff fel Coleg Brenhinol y Nyrsys yn mynegi pryderon difrifol am yr effaith y mae gwasanaethau dan bwysau yn ei chael ar ofal pobl.

Yr argyfwng mewn gofal brys

Rhaid peidio â derbyn yr argyfwng hwn fel “dyma sut mae pethau.” Mae lleisiau pobl a chymunedau wedi adlewyrchu sut mae'r system dan bwysau aruthrol, ac mae gormod o bobl yn aros yn rhy hir, mewn manau anghyfforddus, gorlawn, anurddasol ac anaddas.

Yn rhy aml, nid yw pobl yn derbyn yr elfennau sylfaenol iawn o ofal o ansawdd da, gan achosi straen a phryder iddynt. O dan yr amodau hyn, nid yw'n syndod bod llawer o bobl yn ddihyder yn niogelwch eu gofal GIG mewn argyfwng.

Mae llawer o ofynion, strategaethau, cynlluniau, ymrwymiadau a phrosiectau ar y gweill. Mae'r fframwaith deddfwriaeth megis y Ddyletswydd Ansawdd, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ynghyd â'r egwyddorion a nodir yn Cymru Iachach a'r Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng yn gosod uchelgeisiau clir. Er gwaethaf hyn, nid yw pobl yn gweld newid yn digwydd yn ddigon cyflym.



Realiti gofal brys yn ysbytai Cymru

Rhannodd pobl ledled Cymru straeon sy'n tynnu sylw at yr hyn sy'n gweithio, yr hyn nad yw'n gweithio, a'r hyn sydd angen ei newid. Mae eu straeon yn rhoi darlun byw o'r heriau y maent yn eu hwynebu a sut nad ydynt yn cael gofal diogel, teg a pherson-ganolog:

Heriau mynediad at ofal brys

Roedd oedi ambiwlans wedi gadael rhai pobl yn gyrru eu hunain i'r ysbyty tra'n sâl. Pan gyrhaeddod nhw, roedd llawer o bobl yn wynebu mwy o her wrth ddod o hyd i rywle i barcio a gwybod ble i fynd oherwydd arwyddion gwael. Dywedodd un person wrthym *"Doedd gen i ddim dewis ond gyrru fy hun, er fy mod yn teimlo'n ofnadwy"*.

Mae'r profiadau hyn yn tanseilio'r ymrwymiad i sicrhau'r gofal iawn, yn y lle iawn, ar yr amser iawn ac yn ychwanegu straen at sefyllfaoedd sydd eisoes yn anodd

Aros hir

Dywedodd llawer o bobl eu bod wedi aros rhwng 8 a 24 awr i gael eu gweld, yn aml mewn coridorau gorlawn neu ardaloedd dros dro, gan achosi poen a phryder diangen. Mae hyn yn mynd yn groes i'r safon dim goddefgarwch ar gyfer pobl sy'n treulio dros 12 awr mewn adrannau achosion brys.

Crynowyd y broblem gan un person a ddywedodd wrthym *"Roeddwn i'n aros drwy'r nos mewn coridor gyda goleuadau llachar a sŵn. Roeddwn i'n teimlo nad oedd neb yn gofalu amdanaf."*





Ardaloedd aros gorlawn ac anhygyrch

Disgrifiwyd ystafelloedd aros fel llethol ac anaddas ar gyfer pobl mewn sefyllfaoedd mwy agored i niwed, yn cynnwys plant, pobl niwrowahanol, a phobl anabl.

Nid yw'r diffyg ecwiti hwn a chymorth wedi'i deilwra yn bodloni egwyddorion gofal a chynwysoldeb sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Rhannodd un rhiant, *"Roedd fy mab awtistig yn teimlo bod yr ystafell aros yn annioddefol. Nid oedd unman yn dawel."*

Straen ar staff

Clywsom lawer o ganmoliaeth am ymroddiad a phroffesiynoldeb staff gofal iechyd, ond roedd yn amlwg i bobl fod staff yn cael eu hystyn y tu hwnt i allu:

"Maen nhw'n gwneud eu gorau, ond mae'n amlwg nad oes ganddyn nhw ddigon o gefnogaeth." Mae hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar eu gallu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol, un o gonglfeini'r Ddyletswydd Ansawdd.

Pan fydd pobl yn cael eu gweld, mae gofal yn gyffredinol yn teimlo'n dda

Dywedodd llawer o bobl wrthym fod ansawdd y gofal yn dda ar ôl iddynt gael eu gweld gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael gofal da. Fodd bynnag, mae'r arosiadau hir, diffyg cyfathrebu, a gorlenwi yn gwneud y profiad cyffredinol yn straenus, yn rhwystredig, ac yn aml yn teimlo'n anniogel.

Ceir rhagor o fanylion am yr hyn a glywsom yn ein hadroddiad 'Cael gofal brys yn ysbytai Cymru'.

Adeiladu ar yr hyn sy'n bodoli – ond yn gyflymach

Rydyn ni'n gwybod bod llawer o bethau ar waith i geisio gwneud pethau'n well i bobl – y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng, Dyletswydd Ansawdd, Gofal mewn Adrannau Brys: Mae Datganiad Ansawdd, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gyd yn galw am atebion hirdymor, integredig sy'n canolbwyntio ar bobl.

Realiti'r hyn yr ydym wedi'i glywed a'i weld dros y misoedd diwethaf yw nad yw'r cynlluniau hyn yn cael yr effaith a ddymunir – nid yw gofal brys yng Nghymru yn gweithio i lawer gormod o bobl, ac er gwaethaf yr amrywiaeth o ymdrechion gwella, mae newid yn rhy araf.

Mae angen i bobl wybod:

- **Beth sy'n cael ei wneud i'w gwella?**
- **Pryd fydd pethau'n dechrau gwella?**
- **Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau bod hyn yn digwydd?**

Gwyddom fod pethau'n digwydd yn genedlaethol i ganolbwyntio ar wella pethau. Er enghraifft, mae Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar berfformiad a chynhyrchiant yn edrych ar yr hyn y gellir ei wneud i wella pethau mewn gofal brys a gofal brys yng Nghymru.

Gwyddom fod rhai byrddau iechyd wedi treialu dulliau gweithredu newydd, megis gwasanaethau galw i mewn ychwanegol ac unedau mân anafiadau i leddfu'r pwysau ar adrannau achosion brys. Mae eraill wedi gweithio i gyflymu brysbennu neu wella opsiynau trafnidiaeth.

Gwyddom fod y problemau yr ydym wedi clywed amdanynt mewn gofal brys yn cael eu heffeithio ymhellach gan heriau capasiti mewn gofal sylfaenol. Disgrifiodd llawer o'r bobl y clywsom ganddynt eu bod yn methu â gweld meddyg teulu, yn cael eu harwain i ffonio 111, a'u cyfeirio wedyn at ofal brys.

Ond y mater go iawn yw ei bod yn ymddangos i ni fod yr ymdrechion hyn yn dameidiog, nid ydynt yn rhan o un rhaglen gydgysylltiedig, nad oes ganddynt arweinyddiaeth glir, ac nad ydynt yn gwneud gwahaniaeth yn ddigon cyflym.



Mae Llais yn galw ar Lywodraeth Cymru a GIG Cymru i:

Weithredu ar yr hyn y gellir ei newid yn awr, wrth osod y sylfeini ar gyfer trawsnewid hirdymor.

Canolbwyntio ar weithredu cydgysylltiedig ac atebolrwydd. Mae pobl eisiau:

- Gwelliannau gweladwy – sy'n dangos bod newidiadau'n cael eu gwneud, nid dim ond eu trafod.
- Llinellau amser clir – fel bod pobl yn gwybod pryd y bydd pethau'n gwella a pha gamau sy'n cael eu cymryd nawr.
- Gweithredu cydgysylltiedig – sicrhau bod pob rhan o'r system yn cydweithio ac yn cyflawni canlyniadau.

Darparu arweinyddiaeth ac atebolrwydd clir

- Defnyddio partneriaethau sy'n bodoli eisoes, a mecanweithiau goruchwylio ac uwchgyfeirio i ysgogi gwelliannau gwirioneddol.
- Gwneud cyfrifoldebau'n glir i bawb – pwy sy'n sicrhau bod gofal brys yn gwella, a beth sy'n digwydd pan na chaiff safonau eu cyrraedd.

Lleihau amseroedd aros a gorlenwi

- Gwella cydgysylltu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol i atal tagfeydd yn y system.
- Sicrhau fod manau gofal brys yn hygyrch i bawb, yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion unigol pobl.

Blaenoriaethu urddas a chysur

- Sicrhau fod pawb yn cael gofal a thriniaeth mewn manau priodol ac urddasol.
- Darparu a chynnal amgylcheddau glân, diogel a chyfforddus sy'n parchu urddas pobl.
- Gwneud y pethau bach sy'n gwneud gwahaniaeth mawr i brofiad pobl, fel bwyd a diodydd a chadeiriau cyfforddus.

Gwreiddio lleisiau pobl mewn newid

- Defnyddio adborth amser real i ysgogi gweithredu a gwelliant parhaus.
- Cyflwyno mesurau perfformiad newydd sy'n canolbwyntio ar y pethau sydd bwysicaf i bobl sydd angen gofal brys.
- Sicrhau bod data gofal brys ar brofiadau a chanlyniadau pobl ar gael i'r cyhoedd fel ei bod yn hawdd gweld yr hyn y mae pobl yn ei ddweud a pha gamau a gymerir mewn ymateb.

Rhannu'r hyn sy'n gweithio

- Rhannu a gweithredu'r hyn sy'n gweithio'n dda i bobl ledled Cymru, nid mewn byrddau iechyd unigol yn unig.
- Cyflwyno dull "cyfiawnhau neu fabwysiadu", fel bod newidiadau sy'n gwneud i bethau'n well ddigwydd yn gyflymach ledled Cymru.



Llais

3ydd Llawr

33 – 35 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9HB

02920 235 558

ymholiadau@llaiscymru.org

www.llaiscymru.org